

PWYLLGOR PENODIADAU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Awst 2021

YN BRESENNOL:	Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, A M Jones, Bob Parry OBE FRAGS, Ieuan Williams.
WRTH LAW:	Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid, Rheolwr Adnoddau Dynol (CW), Swyddog Pwyllgor (MEH).
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorwyr Llinos Medi Huws a R Meirion Jones
HEFYD YN BRESENNOL	Dim

1 **ETHOL CADEIRYDD**

Cafodd y Cynghorydd Ieuan Williams ei ail ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor Penodiadau.

2 **ETHOL IS-GADEIRYDD**

Cafodd y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAGS ei ail ethol yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Penodiadau.

3 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhwy ddatgnaidau o ddiddordeb.

4 **COFNODION**

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin, 2021 eu cadarnhau fel cofnod cywir.

5 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-

“O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”

6 **APWYNTIO STAFF**

Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro mewn perthynas â'r swydd uchod.

PENDERFYNWYD:-

- Cymeradwyo'r argymhellion a oedd wedi eu cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro;
- Hysbysebu'r swydd yn allanol o'r 3ydd o Fedi, 2021 a hynny am gyfnod o 3 wythnos.

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS
CADEIRYDD**